# Ysgol Gynradd Georgetown

# Dirprwy Bennaeth

# Pecyn Ymgeisydd

'Dysgu Gyda'n Gilydd'



# GWYBODAETH I YMGEISWYR

| | |
|---|---|
| **Ystod Cyflog** | Graddfa Arweinyddiaeth L8–L12 |
| **Dyddiad Dechrau** | Medi 2025 |
| **Dyddiad Cau** | 10 Mawrth 2025 |
| **Dyddiad Llunio Rhestr Fer** | 14 Mawrth 2025 |
| **Dyddiad Arsylwi Gwersi** | I'w gadarnhau yn dilyn llunio rhestr fer |
| **Dyddiadau Cyfweliadau** | Ysgol y Cyngor – Dydd Mercher 2 Ebrill<br>Corff Llywodraethu – Dydd Iau 3 Ebrill |
| **Gwefan yr Ysgol** | https://www.georgetownprimary.co.uk/ |
| | |

# GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Ffurflen Gais**

Gan ddefnyddio'r ffurflen gais safonol a ddarperir (ni dderbynnir CVs), llenwch bob agwedd ar y ffurflen yn llawn. Dylai'r llythyr ategol fod yn **ddwy dudalen A4 ar y mwyaf** ac mewn maint ffont 10 o leiaf. Cynhwyswch eich hanes gwaith llawn heb unrhyw fylchau anesboniadwy ers gadael addysg ysgol. Cynhwyswch yr holl hyfforddiant perthnasol yr ydych wedi'i gwblhau, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi helpu i'ch paratoi ar gyfer bod yn ddirprwy bennaeth.

**Manyleb Person a Datganiad Personol**

Wrth ysgrifennu eich ymatebion, mae'n bwysig eich bod yn mynd i'r afael â phob un o'r gofynion llunio rhestr fer ym manyleb y person. Rhowch dystiolaeth o agweddau ychwanegol megis hyfforddiant a chymwysterau, ynghyd â'ch cefndir a'ch profiad, yn y datganiad personol.

**Geirdaon**

Gwnewch yn siŵr bod eich canolwyr yn ymwybodol o'ch cais a'u bod yn gallu darparu ymateb cyflym. Y canolwyr a ffefrir yw eich dau gyflogwr olaf, a dylech ddarparu cyfeiriad e-bost swyddogol eu sefydliad i ni gysylltu â nhw. Un canolwr fydd eich pennaeth neu gadeirydd llywodraethwyr presennol.



# LLYTHYR GAN GORFF LLYWODRAETHU YSGOL GYNRADD GEORGETOWN

Annwyl ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn y swydd dirprwy bennaeth yn ein hysgol.

Mae gan yr ysgol ymdeimlad cryf o gyfeiriad strategol ac mae'r holl randdeiliaid wedi ymrwymo i sicrhau safonau uchel a darparu amgylchedd dysgu diogel, gofalgar a chyffrous i'n disgyblion lle gallant ffynnu a chyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae'r ysgol yn cofleidio'r gymuned o'i hamgylch ac yn gweithio'n dda gyda chydweithwyr ar draws pob un o'n hysgolion clwstwr ac ar draws y rhanbarth.

Mae plant Georgetown yn ddysgwyr hapus, hyderus ac annibynnol sy'n ymfalchïo yn eu cyflawniadau ac yn rhoi o'u gorau bob amser. Maent yn ymhyfrydu yn y cyfle i ddatblygu sgiliau newydd ac i fanteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu o fewn y dosbarth, yn ogystal ag yn ystod teithiau ac ymweliadau preswyl. Maent yn mwynhau croesawu amrywiaeth eang o ymwelwyr i'n hysgol. Fel llywodraethwyr, rydym yn gwerthfawrogi'r ystod eang hon o gyfleoedd sy'n cael eu hymestyn i'n disgyblion a'r effaith a gaiff y rhain ar eu cyrhaeddiad academaidd, synnwyr o gyflawniad, ac iechyd a lles emosiynol.

Rydym am i'n disgyblion dyfu i fod yn ddinasyddion hapus, iach a hyderus sy'n mwynhau dysgu ac sy'n barod i wynebu'r heriau sydd o'u blaenau. Teimlwn fod yr ethos hwn a'n hymagwedd at ddysgu dilys yn darparu'r cyfleoedd gorau oll i'n holl ddisgyblion. Dymunwn benodi dirprwy bennaeth sydd, yn anad dim, yn ymarferydd rhagorol ac sydd wedi ymrwymo i weithio ochr yn ochr â'r pennaeth i ddatblygu ymhellach y weledigaeth, y cymhelliant a'r brwdfrydedd a fydd yn parhau i symud ein hysgol yn ei blaen. Mae'r holl randdeiliaid yn ymroddedig i sicrhau safonau uchel i bob disgybl a bydd angen i'r dirprwy bennaeth newydd weithio gyda staff i barhau i ddatblygu'r arfer rhagorol sy'n amlwg ar draws yr ysgol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol ar 01495 71734. Os teimlwch fod yr ysgol yn iawn i chi, edrychwn ymlaen yn fawr at dderbyn eich cais.

**Mrs Johanna D'Amato**

**Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Ysgol Gynradd Georgetown**

# LLYTHYR GAN DDYSGWYR ARWEINIOL YSGOL GYNRADD GEORGETOWN

Annwyl ymgeisydd,

Rydym yn ddisgyblion Dysgwyr Arweiniol yn Ysgol Gynradd Georgetown ac rydym yn ysgrifennu atoch i roi cipolwg i chi ar ein hysgol wych. Mae ein hysgol yn gymuned fywiog a hapus sy'n cynnig amgylchedd diogel a meithringar i bob plentyn o oed meithrin hyd at Flwyddyn 6.

Mae ein hysgol yn darparu ystod eang o brofiadau a chyfleoedd dysgu i ni, y disgyblion, ddatblygu, dysgu a chyrraedd ein potensial. Rydym yn wirioneddol angerddol am ddysgu annibynnol a sgiliau digidol ac wrth ein bodd yn archwilio ffyrdd newydd o wneud pethau, bod yn yr awyr agored, a dysgu'n ddilys – dyma beth sydd mor bwysig i ni!

Mae gennym gysylltiadau gwych gyda'n hysgol uwchradd leol, Ysgol Gyfun Tredegar, a'r gymuned leol. Mae'r cysylltiadau hyn yn bwysig i ni a hoffem gael dirprwy bennaeth a all barhau i adeiladu ar y gwaith hwn.

Fel disgyblion hynaf yr ysgol, rydym yn chwilio am ddirprwy bennaeth cadarnhaol a thosturiol a fydd yn cefnogi ein pennaeth i dywys ein hysgol i'w phennod gyffrous nesaf.

Mae Ysgol Gynradd Georgetown yn lle arbennig iawn i ni i gyd. Mae'n llawn chwerthin a hapusrwydd, gan greu cymuned gynnes a gofalgar. Edrychwn ymlaen at eich cais a gobeithio y byddwch yn llwyddo i ymuno â'n teulu gwych yn Georgetown.

**Dysgwyr Arweiniol**

**Ysgol Gynradd Georgetown**

# EIN HYSGOL



Agorwyd Ysgol Gynradd Georgetown ym mis Mai 1989 ac mae wedi'i lleoli yn ardal ddeheuol tref Tredegar. Disodlodd yr hen adeilad ysgol a oedd wedi gwasanaethu cymuned Georgetown ers 1877. Ers adeiladu'r ysgol ar y prif safle, arweiniodd cynnydd cyson yn nifer y disgyblion at yr angen am floc newydd o wyth ystafell ddosbarth ar gyfer Cyfnod Allwedol 2. Cafodd hwn ei adeiladu ar y safle isaf, gan ddisodli'r ystafelloedd dosbarth dros dro. Agorodd y feithrinfa ym mis Medi 2003.

Mae ein hysgol yn darparu ar gyfer disgyblion 3–11 oed. Mae'r ddarpariaeth feithrin yn darparu ar gyfer 80 o ddisgyblion (40 cyfwerth ag amser llawn). Trefnir y ddarpariaeth hon yn grwpiau'r bore a grwpiau'r prynhawn. Mae darpariaeth gynradd â 420 o leoedd yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 oed ac fe'u trefnir yn 14 dosbarth (chwe dosbarth Cyfnod Sylfaen ac wyth dosbarth Cyfnod Allweddol 2).

Mae Georgetown yn ysgol sydd wrth galon y gymuned ac sy'n adnabyddus am ei hamgylchedd meithringar a chroesawgar ac am ein cred angerddol bod ein disgyblion yn haeddu'r dechrau gorau i'w haddysg. Rydym yn ymfalchïo yn ein darpariaeth lles ardderchog, gan sicrhau bod pob disgybl sy'n mynychu Georgetown yn cael y cyfle gorau i ddod yn ddysgwr gydol oes hapus, iach ac annibynnol.

Mae ein hysgol yn ymfalchïo yn y safonau uchel y mae pob disgybl yn eu cyflawni ac mae'n ysgol arweiniol ar gyfer ysgolion eraill ar draws consortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, Lles a Thechnoleg Ddigidol. Rydym hefyd yn Ysgol Bartner ar gyfer y Brifysgol Agored a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd ac yn falch o allu cael effaith ar eraill, gan gynnwys cenhedlaeth athrawon y dyfodol.

Nid yw hyn yn bosibl heb ymroddiad ac ymrwymiad tîm gwirioneddol ryfeddol o athrawon a staff cymorth sy'n ymdrechu i ddarparu'r gorau oll i bob disgybl bob dydd!

Gwobr Ansawdd Genedlaethol Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru
Welsh Network of Healthy School Schemes National Quality Award

We've embraced thrive in our Setting

The Care Collective Young Carers

Cardiff Partnership | Partneriaeth Caerdydd

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Dirprwy Bennaeth** |
| **Lleoliad:** | **Ysgol Gynradd Georgetown** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Addysg** |
| **Cyfeirnod y swydd:** | |
| **Cyflog:** | **L8 – L12** |
| **Nifer ar y gofrestr:** | **430** |

**Penodiad ar gyfer Medi 2025**

Mae pennaeth a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd Georgetown am benodi dirprwy bennaeth ysbrydoledig a deinamig sydd ag angerdd am ragoriaeth ac arfer rhagorol yn yr ystafell ddosbarth.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus y gallu i addysgu ar draws y cyfnod cynradd a bydd ganddo brofiad helaeth o arwain addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Bydd yn feddyliwr strategol gyda sgiliau arwain, rheoli a rhyngbersonol profedig.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus wybodaeth a dealltwriaeth ragorol o'r Cwricwlwm i Gymru a hanes profedig o groesawu ac arwain newid yn y cwricwlwm. Bydd ganddo'r wybodaeth, y sgiliau a'r uchelgais i sicrhau bod profiad, cyrhaeddiad a chyflawniad yn cael eu mwyhau i'r eithaf ar gyfer pob dysgwr ar draws ein hysgol. Rydym yn chwilio am rywun sydd ag angerdd dros wneud gwahaniaeth gwirioneddol a rhywun sy'n ymroddedig i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid i sicrhau bod Georgetown yn parhau i fod yn ysgol sydd wrth galon ei chymuned leol.

Bydd y pennaeth a'r llywodraethwyr yn darparu cymorth i'r ymgeisydd llwyddiannus, a fydd yn dangos ymrwymiad cryf i weithio'n agos gyda nhw i ddarparu arweinyddiaeth o ansawdd uchel a'r addysg orau posibl i'n plant.

**Cynhelir sgrinio cyn cyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais i ddatgelu cofnodion troseddol.**

**Mae'r swydd hon yn gofyn am gofrestriad gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) o dan y categori athro a bydd angen i'r cofrestriad fod yn ei le cyn dechrau yn y rôl. Mae gwybodaeth am sut i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ar gael ar y wefan ganlynol http://www.ewc.wales/ neu drwy ffonio 02920 460099.**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cau:** | **Hanner dydd, dydd Llun 10 Mawrth 2025** |
| **Llunio rhestr fer:** | **Dydd Gwener 14 Mawrth 2025** |
| **Cyfweliadau:** | **Cyfweliad Cyngor yr Ysgol – Dydd Mercher 2 Ebrill 2025**<br>**Cyfweliad y Corff Llywodraethu – Dydd Iau 3 Ebrill 2025** |

**Cam 1**: Bydd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu harsylwi yn eu lleoliad eu hunain gan y pennaeth rhwng 17 a 28 Mawrth 2025.

**Cam 2:** Os gwahoddir ymgeiswyr i gyfweliad, gwahoddir ymgeiswyr i ymweld â'r ysgol a chwrdd â'r Dysgwyr Arweiniol ar ddydd Mercher 2 Ebrill 2025. Bydd angen i ymgeiswyr fod ar gael ar gyfer cyfweliad ffurfiol gyda'r llywodraethwyr am y diwrnod llawn ar ddydd Iau 3 Ebrill 2025.